# Gwahoddiad i dendro ar gyfer Adolygiad o drefniadaeth corfforaethol yr Eisteddfod Genedlaethol

## 1. Cyd-destun y gwaith

Mae Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn dymuno comisiynu adolygiad annibynnol o'i strwythurau a threfniadaeth gweithredu.

Mae'r Eisteddfod wedi esblygu a datblygu yn sylweddol dros y blynyddoedd diweddar. Yn ystod yr un cyfnod mae'r cyd-destun ariannol wedi mynd yn gynyddol heriol, y pwysau ar tim craidd bychan o ddwsin o staff yn sylweddol uwch. Mae cyfnod y pandemig hefyd wedi newid natur ymgysylltu a gwirfoddoli ar bwyllgorau. Drwy hyn oll mae'r drefniadaeth fewnol wedi aros yr un fath i raddau helaeth.

Mae'r Eisteddfod ar gychwyn y broses o ddatblygu cynllun strategol newydd ar gyfer 2025-2030. Yn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd 2023, cychwynnwyd ar 'Y Sgwrs' – cyfle i holl randdeiliaid yr Eisteddfod i gynorthwyo'r sefydliad gyda'r broses o adnabod a datblygu ei blaenoriaethau strategol i'r cyfnod nesaf.


Fel rhan o'r broses honno ac mewn cyfnod ariannol heriol, mae'n amserol fod yr Eisteddfod yn edrych o'r newydd ar drefniadaeth a strwythurau corfforaethol y sefydliad er mwyn sicrhau eu bod yn addas/briodol ac yn ymateb i ofynion yr Eisteddfod gyfoes. Mae'r Eisteddfod hefyd yn awyddus i sicrhau fod unrhyw strwythurau a threfniadau gweithredu yn galluogi arlwy'r Eisteddfod i gyfleu natur unigryw y cymunedau y mae'n ymweld â hwy, gan sicrhau'r gwaddol mwyaf posibl.

Er mwyn gweithredu yn effeithiol, mae'n hanfodol bod y corff yn gwirio (a mireinio lle bo angen) ei threfniadau rheoli a llywodraethu mewnol er mwyn sicrhau strwythur sy'n effeithiol ac effeithlon, sy'n gymesur â chapasiti a maint y sefydliad, ac sy'n medru bod yn ystwyth a chwim wrth ymateb i newid.

Mae hefyd yn hanfodol fod llais a barn rhanddeiliaid allweddol a'r holl wirfoddolwyr sy'n rhoi o'u hamser i gyfrannu at reolaeth a threfniadaeth flynyddol yr Eisteddfod yn cael eu clywed fel rhan o'r broses hon.

Ar hyn o bryd mae strwythur trefniadaeth yr Eisteddfod yn cynnwys 59 o wahanol bwyllgorau lleol a chenedlaethol, y cyfan yn cael eu gweinyddu gan lond dwrn o staff. Mae ffigwr 1.1 isod yn cyflwyno'r strwythurau presennol a cheir gwybodaeth ychwanegol ynghylch pwrpas a chylch gorchwyl gwahanol bwyllgorau'r strwythur yng Nghyfansoddiad yr Eisteddfod (gweler atodiad A).

**Ffigwr 1.1 Strwythurau Trefniadaeth Gorfforaethol yr Eisteddfod Genedlaethol**



**2. Amcanion yr Adolygiad**

Nod yr adolygiad hwn yw sicrhau bod strwythurau a threfniadaeth yr Eisteddfod yn gadarn, yn dryloyw, yn gynhwysol, yn effeithiol, ac yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain, gan alluogi'r Eisteddfod i barhau â'i rôl hanfodol yn hyrwyddo diwylliant a chelfyddydau Cymru.

Amcanion yr adolygiad hwn yw:

- adolygu ac asesu'r strwythur pwyllgorau a phrosesau llywodraethu presennol
- adnabod y cryfderau, y gwendidau a'r bylchau yn y fframwaith presennol
- darparu argymhellion ar gyfer gwella llywodraethu er mwyn sicrhau tryloywder
- ystyried atebolrwydd, cynhwysiant ac effeithlonrwydd y strwythurau gweithredu presennol
- datblygu cynllun strategol ar gyfer gweithredu unrhyw newidiadau a argymhellir.

**3. Gofynion y gwaith**

Bydd yr adolygiad yn cwmpasu'r meysydd allweddol canlynol:

- **Cyfansoddiad a Strwythur y Bwrdd:** Gwerthuso amrywiaeth, sgiliau, aelodaeth ac effeithiolrwydd aelodaeth y Bwrdd
- **Prosesau Gwneud Penderfyniadau:** asesu eglurder, tryloywder, cynwysoldeb ac effeithiolrwydd y prosesau o wneud penderfyniadau ynghlwm â strwythurau trefniadaeth presennol yr Eisteddfod (hynny yw yr holl bwyllgorau a nodir yn ffigwr 1.1)
- **Ymgysylltu â rhanddeiliaid:** Adolygu mecanweithiau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, gan gynnwys artistiaid, cyfranogwyr, cymunedau lleol, a noddwyr.
- **Trosolwg ariannol:** Archwilio arferion llywodraethu ariannol yr Eisteddfod, gan gynnwys cyllidebu, adroddiadau ariannol, a rheoli risg
- **Effeithiolrwydd ac Effeithlonrwydd Gweithredol:** Asesu effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd arferion gweithredol cyfredol a dyrannu adnoddau ac amser staff i wahanol gyfrifoldebau rheoli a llywodraethiant
- **Cynllunio Strategol:** Gwerthuso effeithiolrwydd prosesau cynllunio strategol hirdymor y sefydliad.

## 4. Methodoleg

Disgwylir i'r tendr llwyddiannus ddefnyddio methodoleg gynhwysfawr, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:

- **Adolygiad Dogfennau:** Dadansoddi dogfennau llywodraethu a threfniadaeth weithredol presennol, gan gynnwys polisïau, cofnodion cyfarfodydd, adroddiadau ariannol, a chynlluniau strategol blaenorol
- **Cyfweliadau ac Arolygon:** Cynnal cyfres o gyfweliadau a/neu arolygon gydag aelodau'r amrywiol bwyllgorau yn y strwythurau presennol (gan gynnwys aelodau o'r Bwrdd, y Cyngor a'r pwyllgorau gwaith lleol), staff, a rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol i gasglu data ansoddol
- **Meincnodi:** Cymharu arferion llywodraethu'r Eisteddfod ag arferion gorau mewn sefydliadau diwylliannol tebyg.
- **Gweithdai/Cyfweliadau Rhanddeiliaid**: Hwyluso gweithdai/cyfweliadau gyda rhanddeiliaid allweddol (megis y Cyngor a'r Bwrdd) i drafod canfyddiadau cychwynnol er mwyn mireinio unrhyw argymhellion.

## 5. Canlyniadau

Dylai'r adolygiad ddod i ben gydag adroddiad cynhwysfawr sy'n cynnwys:

- Crynodeb gweithredol o ganfyddiadau ac argymhellion
- Dadansoddiad manwl o bob maes trefniadaeth a adolygwyd
- Argymhellion penodol, gweithredadwy ar gyfer gwella
- Cynllun gweithredu arfaethedig gan gynnwys model gweithredu amgen i'w ystyried (os yn berthnasol)

## 6. Amserlen

Disgwylir i'r adolygiad gael ei gwblhau o fewn pum mis i ddyddiad dyfarnu'r contract.

Mae'r cerrig milltir allweddol yn cynnwys:
- Mis 1 : Cyfarfodydd cychwynnol ac adolygiad o ddogfennau.
- Mis 2-4: Cynnal cyfweliadau, arolygon a gweithdai.
- Mis 5: Dadansoddi a drafftio'r adroddiad a chyflwyno canfyddiadau

**7. Gofynion Cyflwyno**

Dylai'r rhai sydd â diddordeb gyflwyno cynnig sy'n cynnwys:

- Cynllun gwaith manwl a methodoleg
- Profiad a chymwysterau'r tîm sy'n cynnal yr adolygiad gan gynnwys enghreifftiau o waith blaenorol perthnasol
- Llinell amser ar gyfer cwblhau'r adolygiad.
- Pris (gan ddangos dosraniad tasgau/amser pob unigolyn)

Croesewir cynigion gan unigolion, gan gonsortiwm neu gynigion ar y cyd. Bydd angen rhoi manylion llaw yr aelodau, gan gynnwys enwau, a nodi pwy fydd yn gyfrifol am gyflawni gwahanol dasgau'r gwaith.

Mae angen arbenigedd o arfer gorau llywodraethiant a dealltwriaeth a hygrededd o fewn cyd destun yr Eisteddfod Genedlaethol.

**8. Meini Prawf Gwerthuso**

Bydd y cynigion yn cael eu gwerthuso yn seiliedig ar:

| **Maen prawf** | **Pwysoli** |
|---|---|
| Dealltwriaeth o'r Eisteddfod a chwmpas y gwaith sy'n cael ei gomisynu | 20% |
| Methodoleg a chynllun gwaith arfaethedig | 30% |
| Profiad a chymwysterau'r tîm | 30% |
| Cost-effeithiolrwydd y gyllideb | 20% |

**9. Dyddiad cau**

Rhaid cyflwyno cynigion erbyn **12 hanner dydd ar 15 Gorffennaf 2024** drwy ebost at **tendrau@eisteddfod.cymru**. Dylid nodi '**Cais Tendr: Adolygiad o drefniadaeth corfforaethol yr Eisteddfod Genedlaethol'** yn glir yn llinell pwnc yr ebost.

Ni fydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried.
Rhaid dyfynnu prisiau gan nodi'n glir a godir TAW ai peidio.

Mae'r amserlen darged ar gyfer y broses gaffael fel a ganlyn:

| Carreg filltir | Dyddiad |
|---|---|
| Cyhoeddi hysbysiad tendr | 26 Mehefin 2024 |
| Dyddiad Cau y tendr | Hanner dydd, 15 Gorffennaf 2024 |
| Gwerthusiad y tendr | 15-19 Gorffennaf 2024 |
| Hysbysu o ddyfarniad y cytundeb | w/c 22 Gorffennaf 2024 |
| Cychwyn y cytundeb | 2 Medi 2024 |
| Cyflwyno'r Adolygiad Ysgrifenedig | 31 Ionawr 2025 |

**10. Cyllideb**

Clustnodir cyllideb rhwng £10,000-15,000 heb gynnwys TAW ar gyfer y gwaith.

**11. Gwybodaeth Gyswllt**

Am unrhyw ymholiadau neu wybodaeth bellach, cysylltwch â:
Betsan Moses
Prif Weithredwr
betsan@eisteddfod.cymru
Anogir ymgeiswyr i gysylltu am sgwrs anffurfiol.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cynigion a chydweithio i gryfhau strwythurau a threfniadaeth yr Eisteddfod Genedlaethol.